*These notes refer to the Mesur Addysg (Cymru) 2009 (c.5)*

# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant

**Apelau anghenion addysgol arbennig**

Mae adrannau 1- 8 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Addysg 1996

***Adran 3 – Cyfeillion achos (mewnosod adran 332ZC newydd yn Neddf Addysg 1996)***

12. Mae is-adran (1) o'r adran 332ZC newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau syn darparu i blentyn gael person (a elwir "cyfaill achos") i wneud cynrychioliadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng y plentyn a'r Awdurdod Addysg Lleol neu er mwyn arfer, ar ran y plentyn, hawl plentyn i apelio.

13. Mae is-adran (2) yn pennu dyletswyddau'r cyfaill achos pan fydd yn gwneud cynrychioliadau neu apêl ar ran plentyn.

14. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff rheoliadau, a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, (ymhlith pethau eraill) roi swyddogaethau i'r Tribiwnlys a gosod gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiswyddo cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan gaiff person neu pan na chaiff person weithredu fel cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan fo'n rhaid i blentyn gael cyfaill achos, a phennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfaill achos.